Bwrdd Gweithredol Tŷ'r Cwmnïau – cofnodion cryno – 26 Awst 2009

Cyfarwyddeb Gwasanaeth
Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd am yr elfennau sy'n effeithio ar Dŷ'r Cwmnïau.

Diweddariad ynghylch CAP
Mae'r rhaglen yn cadw at yr amserlen ac mae'r ymarfer cyfathrebu gyda chwsmeriaid yn parhau, gydag adborth cadarnhaol yn cael ei gynnig.

Diweddariad ynghylch Rhaglen e100
Mae'r Prosiect Gallu Electronig Estynedig (EECP) ar fin cael ei gwblhau ac yn dilyn gweithgarwch profi cychwynnol, mae'r canlyniad yn gadarnhaol.

Diweddariad ynghylch Bwrdd Busnes yr Asiantaeth a Cherdyn Sgorio Misol ar gyfer mis Gorffennaf
Darparwyd y diweddariad misol ar gyfer y Bwrdd gan ABB. Amharwyd ar y gwasanaeth Gwe-ffeilio yn ystod mis Gorffennaf o ganlyniad i broblem gyda'r gweinydd. Datryswyd y broblem ac roedd y gwasanaeth wedi gwella. O 1 Awst, mae'n gwasanaethau ar y we wedi bod ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Perfformiad Ariannol
Dosbarthwyd y Pecyn Adrodd Ariannol misol ar gyfer mis Gorffennaf i'r aelodau er gwybodaeth.

Adolygiad o'r Risgiau Allweddol i'r Bwrdd Gweithredol
Bu aelodau'r Bwrdd yn adolygu'r gofrestr risgiau bresennol, gan gytuno i'r diwygiadau ar gyfer rhai o'r proffiliau risg a gyflwynwyd.

Nod Siarter
Yn dilyn asesiad ym mis Gorffennaf, llwyddodd Tŷ'r Cwmnïau i gadw gafael ar safon y Nod Siarter.